

Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau BIPBC Gweithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn Lleoliadau Cartref yng Ngogledd Cymru
--

Dyddiad adolygu	Ebrill 2021	Nifer y tudalennau	31
Awdur(on)	Sarah Felicello Sue Randles Eiriann Turner Val Bamber	Teitl yr awdur(on)	Fferylllydd P&MM Technegydd Fferylliaeth Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Adran/cyfarwyddwr cyfrifol	Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau		
Cymeradwywyd gan	Is-grŵp Polisi, Gweithdrefnau a PGD Meddyginiaethau BIPBC a Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg BIPBC		
Dyddiad y cymeradwywyd	Rhagfyr 2016/ Mai 2020 ar gyfer COVID - 19		
Dyddiad gweithredu (mynd yn fyw)	Rhagfyr 2016/ Mehefin 2020		
Dyddiad cwblhau'r EQIA	27 Ebrill 2016		
Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cytundeb ar y Cyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ar gyfer Cod Ymddygiad ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol Mai 2016 2. Safonau o arfer gorau a gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar gyfer bob lleoliad gofal i oedolion Mai 2016 3. Safonau'r cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau Ebrill 2010 4. Polisi Meddyginiaethau BIPBC http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=475&pid=57485 		
Newidiadau adolygu cyfredol:	N/A		
Yn weithredol yn gyntaf			
Wedi'i adolygu'n flaenorol			
Wedi gwneud newidiadau Do/naddo			
GWYBODAETH BERCHNOGOL			
Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth berchnogol sy'n eiddo i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Peidiwch â chynhyrchu'r cyfan neu unrhyw ran o'r ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig BIPBC.			

Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn lleoliadau cartref yng Ngogledd Cymru

Mae Rheoliadau 2014 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Rheoledig) yn datgan bod yn rhaid i ofal a thriniaeth gael eu darparu mewn modd diogel i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gofal cartref (unigolyn cofrestredig) asesu'r risgiau i iechyd a diogelwch unigolion sy'n derbyn gofal neu driniaeth. Mae angen i asesiadau, cynllunio a darparu anghenion gofal fod yn seiliedig ar gydbwysedd o anghenion a diogelwch unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u hawliau a'u dewisiadau. Mae'n rhaid i weithwyr gofal fod wedi'u hyfforddi a'u hasesu fel cymwys gan y darparwr gwasanaeth cyn rhoi unrhyw feddyginiaethau, a dim ond os oes cytundeb wedi'i gofnodi'n glir i wneud yn y cynllun gofal ynghyd â chyfarwyddiadau clir gan y rhagnodwr ynglŷn â sut y dylid rhoi'r feddyginiaeth y dylid rhoi meddyginiaeth yn unig.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Gofal Cartref yng Nghymru hefyd yn datgan: "Dylai'r unigolyn cofrestredig wneud trefniadau ar gyfer cofnodi meddyginiaethau a ddefnyddir yn ystod darpariaeth gofal personol i'r defnyddiwr gwasanaeth, eu cadw'n ddiogel, eu rhoi'n ddiogel a chael gwared arnynt."

Mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) sydd ynghlwm wedi cael eu cynhyrchu i'w mabwysiadu gan bob lleoliad Gofal fel bo'n briodol i'w ymarfer. Argymhellir bod unrhyw SOP a fabwysiadir yn cael ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn, neu pan mae newid o ran staff perthnasol neu pan mae digwyddiad wedi codi, a bob amser mae deddfwriaeth neu arweiniad newydd neu ddiwygiedig.

	CYNNWYS	TUDALEN
1	Asesiad ar gyfer hunan weinyddu meddyginiaethau gan ddefnyddiwr gwasanaeth (Helpu Defnyddwyr Gwasanaeth i ofalu am eu meddyginiaethau a'u cymryd eu hunain)	3
1a	Ffurflen asesu ar gyfer Hunan Weinyddu	5
2	Archebu Meddyginiaeth ar ran defnyddiwr gwasanaeth	7
3	Derbyn Meddyginiaeth gan weithiwr gofal	9
4	Storio Meddyginiaeth yng nghartref y defnyddiwr gwasanaeth	11
5	Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)	12
6	Ocsigen	13
7	Rhoi Meddyginiaeth Gweithwyr gofal cartref yn rhoi meddyginiaethau i unigolion	14
8	Gorchmynion neu negeseuon llafar sy'n ymwneud â newidiadau dos meddyginiaeth	18
9	Cadw cofnod meddyginiaeth mewn Gofal Cartref	19
10	Cael gwared ar/Dychwelyd Meddyginiaeth	21
11.	Camgymeriad Rhoi Meddyginiaeth	22
12	Rhoi Meddyginiaeth yn Gudd	24
13	Defnyddio Meddyginiaeth o'r cartref	26
14	Trosoglwyddo Defnyddwyr Gwasanaeth i leoliad arall (e.e. rhyddhau o'r ysbyty neu dderbyn i'r ysbyty)	27
15	Meddyginiaeth ' <i>Pan fo'i hangen</i> ' mae (meddyginiaethau PRN)	28
16	Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer gadael meddyginiaeth allan ar gyfer y dinesydd i'w gymryd ei hun yn hwyrach ymlaen.	30

1. Asesiad ar gyfer hunan weinyddu meddyginiaethau gan ddefnyddwyr gwasanaeth

(Helpu dinasyddion i ofalu am eu meddyginiaethau a chymryd eu meddyginiaethau eu hunain)

Cwmpas

Helpu dinasyddion i ofalu am eu meddyginiaethau a chymryd eu meddyginiaethau eu hunain. Unwaith y mae dinesydd wedi cael ei asesu ei fod yn gallu hunan weinyddu meddyginiaeth, mae'r cyfrifoldeb am roi meddyginiaeth yn aros gyda'r dinesydd

Proses ar gyfer asesu ar gyfer hunan weinyddu meddyginiaeth gan ddinesydd (yn cynnwys meddyginiaeth heb ei rhagnodi gan ddinesydd)

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Ystyried a oes unrhyw gyfyngiadau ar hunan-weinyddu ac, os oes, sut y gellir goresgyn y rhain o bosibl. Trafod hyn ag aelodau priodol o'r tîm amlddisgyblaethol	Hyrwyddo hunan weinyddu llwyddiannus a diogel a sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu dosbarthu a'u labelu'n briodol ar gyfer anghenion y claf
2	Trafod, â'r dinesydd, ei feddyginiaeth ac unrhyw broblemau y mae'n eu cael â'r drefn o bosibl. Cofnodi trafodaethau yn y cynllun gofal. Dysgu unrhyw sgiliau arbennig sydd eu hangen, er enghraifft defnydd cywir o fewnanadlwyr aerosol	Hyrwyddo ymrwymiad a chyfranogiad gwybodus dinesydd yn ei ofal ei hun, lle bo'n briodol. Sicrhau bod triniaeth yn cael ei derbyn fel y bwriadwyd
3	Cynnal asesiad o allu'r dinesydd i hunan weinyddu gan ddefnyddio'r ffurflen asesu ar dudalen 5	
4	Bydd y ffurflen asesu a'r cydsyniad yn cael eu ffeilio yng nghofnodion y dinesydd. (Gweler ffurflen gydsynio ar dudalen 4)	
5	Dadansoddi effeithiolrwydd yr hunan weinyddu, a chofnodi unrhyw anawsterau a gafwyd ac unrhyw ymyriadau a wnaed. Mae'n rhaid cynnal asesiadau pellach yn wythnosol i ddechrau, ac yna o dro i dro, neu pan fo e.e. <ol style="list-style-type: none"> newidiadau i'r feddyginiaeth ; wrth adolygu cynllun gofal y dinesydd, os oes anawsterau yn codi, os yw cyflwr meddygol yn newid, yna dylai'r dinesydd gael ei ailasesu a'i gyfeirio at y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd priodol, teulu'r dinesydd neu ei eiriolwr.	I ddynodi anghenion dysgu ac addysgu pellach, ac addasu cynllun gofal yn unol â hynny Pan fo problemau gyda hunan weinyddu e.e. pan mae anghenion maeth a hydradiad yn rhan ohono, neu pan fo perygl o hunan laddiad neu hunan-niwed, yna efallai y bydd adolygiad parhaus o asesiad meddyginiaethau yn briodol (NICE 2016)

Nodiadau

- Mae'n rhaid bod yr aseswr wedi cael hyfforddiant, ac wedi cael ei asesu yn gymwys yn y broses asesu ar gyfer hunan weinyddu meddyginiaeth.
- Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer sicrhau bod y dinesydd yn parhau'n addas ar gyfer hunan weinyddu yn aros gyda'r Darparwr Gofal.
- Mae'n rhaid nodi'n glir ar gynllun gofal a chofnod dyddiol y dinesydd ei fod yn hunan weinyddu meddyginiaeth.
- Dylid cofnodi datblygiad y dinesydd neu faterion perthnasol eraill yn cynnwys monitro yn y cynllun gofal/nodiadau dyddiol.

Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn **lleoliadau cartref** yng
Ngogledd Cymru
Ffurflen Gydsynio Dinesydd

Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn y cynllun hunan weinyddu.

Rwyf wedi cael eglurhad llawn am y cynllun hunan weinyddu a fy meddyginiaethau, ac rwyf wedi derbyn taflen wybodaeth i gleifion hefyd ac wedi'i darllen.

Rwy'n cytuno:

1. I'w cymryd fel y'u rhagnodwyd gan fy Meddyg Teulu.
2. I roi gwybod i'r uwch ofalwr/cynorthwydd gofal os ydw i'n meddwl fy mod wedi gwneud camgymeriad wrth gymryd fy meddyginiaethau.
3. I roi gwybod i'r uwch ofalwr/cynorthwydd gofal am unrhyw feddyginiaethau newydd.

Llofnod y dinesydd Enw.....

Dyddiad

Rwyf wedi asesu addasrwydd y dinesydd i hunan weinyddu ac yn dyst eu bod nhw wedi llofnodi.

Llofnod yr uwch ofalwr/cynorthwydd gofal mewn gofal sy'n dyst

Enw.....Dyddiad

Cais am Gaeadau Plaen ar Feddyginiaethau (copi i'w anfon at y Fferyllydd Cymuned sy'n dosbarthu neu Feddyg sy'n Dosbarthu)

Bydd yr holl feddyginiaethau yn cael eu dosbarthu mewn cynhwysyddion na all plant eu hagor, onid yw'r ymwadiad canlynol yn cael ei arwyddo gan y preswlydd.

Nid ydw i eisiau fy meddyginiaethau i gael eu dosbarthu mewn cynhwysydd na all plant ei agor.

Llofnod y dinesydd Dyddiad

Ffurflen asesu ar gyfer Hunan Weinyddu Meddyginiaethau 1a		
Enw'r dinesydd:	Rhif GIG:	
Dyddiad Geni:		
Cwestiwn	YDI/NAC YDI	
A yw hunan weinyddu wedi cael ei egluro i'r dinesydd?		
A yw'r dinesydd eisiau hunan weinyddu?		
A yw'r dinesydd yn eglur ei feddwl a'i farn, ac yn ymwybodol o amser a lle? (Os 'na' yna ni ddylid ystyried hunan weinyddu)		
A yw cyflenwad o feddyginiaeth wedi cael ei egluro a'i ddeall gan y dinesydd? Yn cynnwys cyngor ar bryd a sut i ail-archebu cyflenwadau i sicrhau nad yw meddyginiaethau'n darfod.		
A yw'r dinesydd yn deall sut y dylid storio eu meddyginiaethau?		
A yw'r dinesydd yn deall sut a phryd i gymryd eu meddyginiaeth? e.e amser dos, i'w chymryd gyda bwyd, cymryd meddyginiaethau yn ystod cyfnodau o ymprydio crefyddol ayyb		
A yw'r dinesydd wedi'i gynghori i roi gwybod i staff os ydynt yn amau bod sgil effaith?		
A yw'r dinesydd wedi cael ei gynghori bod yn rhaid iddo ofyn am gyngor meddygol os ydyw wedi gwneud camgymeriad o ran meddyginiaeth?		
A yw'r dinesydd wedi cael ei gynghori bod yn rhaid iddo roi gwybod i staff am unrhyw newid yn ei gyflwr?		
A yw'r dinesydd angen unrhyw addasiadau i'w feddyginiaeth er mwyn ei alluogi i'w chymryd yn ddiogel?		
Os nad yw'r dinesydd yn gallu agor pecynnau nad yw plant yn gallu eu hagor neu becynnau tabledi, a fyddai darparu caeadau plaen yn caniatáu hunan weinyddu?		
Os oes gan y dinesydd olwg gwael, a fyddai hyn yn gallu cael ei ddatrys drwy ddefnyddio sbectol a/neu labeli print bras?		
A yw'r dinesydd yn gallu darllen y geiriau ysgrifenedig a'u deall?		
A yw'r dinesydd yn gwybod sut i ddychwelyd meddyginiaethau nad oes eu hangen yn ddiogel?		
Gofynion dosbarthu arbennig os oes angen		
Tabledi mewn poteli nad yw plant yn gallu eu hagor		
Labeli print bras		
Anogaeth atgoffa		
Os yw bob ateb yn YDI yna mae hunan weinyddu wedi'i gymeradwyo gyda/heb ofynion dosbarthu arbennig	DO/NAD DO	
Ar ôl cyfeirio a thrafodaeth â rheolwr llinell, dyddiad ailasesu		
Aseswr Penodol (mewn INC a PHRIFLYTHRENNAU): Swydd: Llofnod yr aseswr: Dyddiad: Llofnod y dinesydd: Dyddiad:		

Wedi'i asesu ar gyfer hunan weinyddu:

ENW (mewn Priflythrennau)

Llofnod:.....

Dyddiad yr asesiad: wedi'i gymeradwyo i Hunan weinyddu Do/ Naddo

Uwch Ofalwr mewn Gofal

ENW (mewn Priflythrennau)

Llofnod.....

Dyddiad.....

ENW'R Dinesydd (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Llofnod.....

Dyddiad.....

Dyddiad Ailasesu

2. Archebu meddyginiaeth ar ran dinesydd

Cwmpas

Gall gweithwyr gofal, gefnogi dinasyddion os oes angen i archebu cyflenwad priodol o feddyginiaethau, fel nad yw eu meddyginiaethau yn darfod, neu bod ganddynt bentwr stoc o feddyginiaeth er enghraifft drwy: ofyn am ailbresgripsiwn o'r Feddygfa
gofyn am ailbresgripsiwn drwy wasanaeth casglu fferyllfa gymunedol
cael meddyginiaeth a ragnodir fel 'untro' (presgripsiwn llym).

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Bydd y cynllun gofal yn datgan pwy sy'n gyfrifol am archebu meddyginiaeth y dinesydd, a threfnu danfon neu gasglu meddyginiaethau o'r fferyllfa gymunedol (HLIN 2008).	Gall hwn fod y dinesydd, gofalwr, teulu, gweithiwr gofal ayyb. Bydd hefyd yn nodi o ba fferyllfa neu feddyg sy'n dosbarthu y mae'r feddyginiaeth yn dod ohono, ac a yw'r feddyginiaeth i'w chasglu neu ei danfon.
2	Cysylltu â'r Feddygfa i ganfod y ffordd fwyaf addas i archebu meddyginiaethau, (Mae meddyginiaethau'n cael eu harchebu ar gylch pedair wythnos fel arfer) Canfod pwy sy'n gyfrifol am fynd â'r presgripsiynau i'r fferyllfa gymuned	yn enwedig faint o ddiwrnod y mae'r fferyllfa ei angen i brosesu ceisiadau presgripsiwn (RPS 2007) Sicrhau mewn digon o amser fel nad yw meddyginiaethau'r dinesydd sy'n derbyn gofal yn darfod.
3	Dylai'r gweithiwr gofal drafod â'r dinesydd pa feddyginiaethau sydd angen cael eu harchebu. Gwirio pa feddyginiaethau sydd gan y dinesydd, ac archebu beth sydd ei angen yn unig.	Dylent fod yn ofalus i sicrhau mai dim ond y feddyginiaeth sydd ei hangen sy'n cael ei harchebu er mwyn osgoi pentyrru stoc o feddyginiaethau. e.e. Paracetamol i'w roi 'pan fo angen' neu feddyginiaeth argroenol.
4	Gellir archebu'r ailbresgripsin drwy: Fy iechyd ar-lein- system archebu ar y we neu Drwy'r dinesydd neu'r gweithiwr gofal gwblhau'r slip ailbresgripsiwn ar y ffurflen bresgripsiwn gwyrdd WP10 a danfon y ffurflen i'r feddygfa	
5	Dylid gwneud cofnod o beth sydd wedi cael ei archebu yn y cofnod dyddiol / cynllun gofal.	Sicrhau nad yw archebu dyblyg yn digwydd.
6	Dylai proses fod yn ei lle i ddelio'n gyflym ac yn effeithlon â phresgripsiynau llym i sicrhau y gellir dechrau'r feddyginiaeth newydd cyn gynted â phosibl, o fewn 24 awr fan bellaf (NICE 2016)	Cael gwybodaeth gan Feddyg Teulu a Fferyllydd Cymuned

Nodiadau

1. Mae'n annerbyniol dychwelyd meddyginiaethau heb eu defnyddio bob mis i'r cyflenwr, wrth ofyn am fwy o gyflenwadau.
2. Dylid osgoi rhag casglu gormod o feddyginiaethau, a phan fo'n briodol dylai'r rheolwr llinell gysylltu â Meddyg Teulu'r dinesydd er mwyn addasu nifer y presgripsiwn neu ofyn am adolygiad meddyginiaethau.
3. Nid yw hi'n briodol fel arfer i weithiwr gofal i ddylanwadu ar ddewis meddyginiaethau dros y cownter y mae'r unigolyn eisiau eu prynu. Er hynny, efallai y bydd problemau yn codi pan mae dinesydd yn

Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn **lleoliadau cartref** yng Ngogledd Cymru gofyn i weithiwr gofal i brynu neu roi meddyginiaeth dros y cownter (HLIN 2008). Efallai y bydd gan y darparwr gofal cartref gyfrifoldeb dros wneud y penderfyniad hwn, er enghraifft os nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud y dewis (RPS 2019, HLIN 2008).

4 Dylai bod gan ddarparwyr gofal cartref bolisiau a phrosesau yn eu lle ar gyfer gweithwyr gofal os bydd angen triniaeth gyda meddyginiaethau dros y cownter o bosibl, dylai hyn gynnwys:-

- cael cyngor gan feddyg, fferylllydd neu nyrs
- diffinio'r mân anhwylderau yn glir y mae gweithiwr gofal yn gallu eu trin, er enghraifft, cur pen, dŵrpoeth, peswch.
- dewis y meddyginiaethau sy'n addas ar gyfer yr unigolion y maent yn gofalu amdanynt.
- datblygu gweithdrefn fanwl ar gyfer gweithwyr gofal cartref ei dilyn, yn cynnwys beth na ddylent eu gwneud, megis cynnig cyngor ar gyfer trin mân anhwylderau.
- gwneud yn siŵr fod yr unigolion sy'n derbyn gofal, eu haelodau o'u teulu a/neu ofalwyr a rhagnodwyr yn deall y polisi.
- cadw cofnodion o'r pryniant, rhoi a gwaredu (RPS 2019).

3. Derbyng meddyginiaeth gan weithiwr gofal

Cwmpas

Gall gweithwyr gofal gefnogi dinasyddion i archebu cyflenwad priodol o feddyginiaethau a'u derbyn os oes angen, fel nad yw eu meddyginiaeth yn darfod neu fel nad oes ganddynt bentwr stoc o feddyginiaethau. Pan fo gweithwyr gofal yn gyfrifol am gludo meddyginiaethau penodol efallai y bydd angen iddynt ystyried asesu risg er enghraifft yr angen am reoli tymheredd, diogelwch a pherygl o wyriad, er enghraifft yr angen am gynhwysydd nad oes modd ymyrryd â nhw ar gyfer cyffuriau rheoledig.

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Dylid nodi'r holl feddyginiaethau sy'n dod i gartref y dinesydd o ba bynnag ffynhonnell	Mae hyn yn cynnwys bob meddyginiaeth a ragnodwyd (ailbresgripsiwn a llym).
2	Lle bo'n bosibl, pan rydych yn cyrraedd cartref y dinesydd, dylid gwirio meddyginiaeth er cywirdeb yn erbyn: Y rhestr o feddyginiaethau a ragnodwyd. Cais meddyginiaeth gwreiddiol Siart MAR cyfredol y dinesydd Siartiau MAR newydd ar gyfer archebion misol	
3	Ar gyfer derbyn bob meddyginiaeth a ddosberthir, mae angen gwneud y gwiriadau canlynol: Y rhestr o feddyginiaethau a ragnodir Y dinesydd y mae'r meddyginiaeth a ragnodir ar ei gyfer (neu a brynwyd) Enw, cryfer, dos, ffurf, nifer a dyddiad derbyn.	Mae taflen wybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi gyda bob meddyginiaeth (yn cynnwys y rhai a ragnodir mewn systemau dos sy'n cael ei fonitro). Mae'n rhaid i staff sicrhau bod y daflen hon ar gael i'r dinesydd. Mae'n rhaid i feddyginiaethau gael eu labelu'n briodol h.y. Enw'r dinesydd Dyddiad dosbarthu. Enw, cryfder a ffurf meddyginiaeth. Dos ac amllder meddyginiaeth.
4	Dylid egluro unrhyw anghysondebau gyda'r fferylllydd cymuned sy'n cyflenwi neu feddyg dosbarthu cyn cefnogi neu roi unrhyw feddyginiaethau i'r dinesydd. Os oes camgymeriad wrth ddosbarthu meddyginiaeth, yna mae'n rhaid cwblhau ffurflen ddigwyddiad (tudalen 24 a 25) neu drwy'r ddolen:- http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/BCUHB%20PCSU%20Incident%20Reporting%20form%20April%202016.pdf	Gwirio presgripsiynau ysgrifenedig pan maent yn cael eu derbyn o'r feddygfa yn erbyn y rhestr ceisiadau, cyn i'r meddyginiaethau gael eu dosbarthu Sicrhau bod unrhyw newidiadau annisgwyl yn cael eu gwirio gan y Meddyg Teulu cyn i'r meddyginiaethau gael eu dosbarthu
5	Os yw label yn dod oddi ar gynhwysydd, neu'n annarllenadwy, mae'n rhaid i staff gael cyngor gan y fferylllydd. Nes hynny, ni ddylid defnyddio'r cynhwysydd gwreiddiol.	I sicrhau adnabod y feddyginiaeth, dos yn gywir ayyb

6	Ni ddylai gweithwyr gofal ddisbarthu i ddyfeisiau cydymffurfio e.e bocsys pils, boteli, amlenni ayyb	Ar gyfer cefnogaeth lefel 1/ Lefel B , lle mae dinesydd yn dymuno defnyddio dyfais o'r fath, mae'n rhaid i'r dinesydd neu ei deulu gymryd cyfrifoldeb dros drosglwyddo'r feddyginiaeth i'r ddyfais gydymffurfio. Ar gyfer cefnogaeth Lefel 2 / lefel C a lefel 3 / cefnogaeth ychwanegol. Ni ddylid defnyddio Dyfeisiadau Cydymffurfio.
7	Pa mae meddyginiaeth yn cael ei derbyn, dylid ystyried unrhyw ofynion storio arbennig neu feddyginiaeth beryglus.	

Sylwer:

Peidiwch â newid y label neu unrhyw wybodaeth ar y label ar gynhwysydd y feddyginiaeth.

Mewn achos o fwy nag un cynhwysydd, mae'n rhaid i bob cynhwysydd gael ei labelu. Er enghraifft, ar feddyginiaethau sydd â chynhwysydd mewnol a bocsg allanol (e.e. boteli diferion llygaid, tiwbiau hufen ac eli) dylai'r label gael ei roi ar yr eitem yn ogystal â'r bocsg allanol. Yn achos systemau dosiau sy'n cael eu monitro, dylid rhoi label newydd ar bob cyflenwad.

4. Storio Meddyginiaeth yng nghartref y dinesydd

Cwmpas

Dylid cynnwys manylion yn y cynllun gofal o ran ble mae'r feddyginiaeth yn cael ei storio yng nghartref y dinesydd, a pha lefel o ddiogelwch sydd ei hangen. Dylid ystried a darparu storio meddyginiaethau ar sail unigol (RPS 2007, HLIN 2008).

	Gweithred	Rhesymwaith
1	<p>Dylid cytuno ar storio meddyginiaethau gyda'r dinesydd, a'i gofnodi yn y cynllun gofal i sicrhau mynediad diogel yn enwedig ar gyfer cyffuriau a rheoledig.</p> <p>Dylai'r rhain gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> anghenion a dewisiadau'r unigolyn/dinesydd dynodi pwy ddylai gael mynediad awdurdodedig at y meddyginiaethau sicrhau bod cwpwrdd neu lle storio diogel ar gyfer storio meddyginiaethau, yn cynnwys y rhain a gyflenwir mewn systemau dosiau sy'n cael eu monitro, ychwanegiadau maeth, gorchuddion ayyb asesu'r angen am storio diogel, er enghraifft, mewn cwpwrdd sy'n cloi dynodi'r angen i storio mewn oergell adolygu anghenion storio, er enghraifft, os oes gan yr unigolyn alluedd meddyliol sy'n dirywio neu sy'n newid. 	<p>Mae gwybodaeth am storio yn cael ei darparu yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion sy'n cael ei chyflenwi gyda'r feddyginiaeth</p> <p>Ar gyfer unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl neu ddementia efallai na fydd hi'n briodol i'r unigolyn gael mynediad at eu meddyginiaethau (HLIN 2008) Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cwpwrdd y gellir ei gloi yng nghartref yr unigolyn.</p> <p>Efallai y bydd angen storio'r meddyginiaethau (diogel) dan glo i atal mynediad anawdurdodedig, dargyfeirio neu gamddefnydd (er enghraifft plant neu breswylwyr eraill sy'n ymweld mewn tai a rennir).</p>
2	<p>Lle mae gweithiwr gofal yn cynorthwyo gyda'r feddyginiaeth, mae'n rhaid bod lle dynodedig, hygyrch ar gyfer storio meddyginiaeth.</p> <p>Dylid storio meddyginiaethau mewn man sych oer. Dylid cofnodi'r man hwn yn y cynllun gofal</p>	<p>Mae rhai manau yn y cartref yn anaddas ar gyfer storio meddyginiaethau, er enghraifft manau llaith neu llawn stêm megis ceginau neu ystafelloedd ymolchi.</p>
	<p>Lle mae angen i fynediad y dinesydd at y feddyginiaeth gael ei gyfyngu, mae'n rhaid bod asesiad risg yn ei le. Mae'n rhaid cofnodi'r manylion yn y Cynllun Gofal</p>	<p>Gallai proses asesu risg edrych ar y posibilrwydd o gamddefnyddio meddyginiaethau oherwydd hygyrchedd gan yr unigolyn neu unigolion eraill.</p>
	<p>Ar gyfer meddyginiaeth sydd angen cael ei rhoi yn yr oergell, efallai y bydd silff bwrpasol yn yr oergell domestig yn briodol. Dylai gweithwyr gofal wirio bod oergell yr unigolyn yn gweithio'n iawn, a gwirio ei fod yn cael ei lanhau a'i ddadrewi yn rheolaidd.</p>	<p>Bydd yn nodi ar label y meddyginiaethau neu yn y daflen wybodaeth i gleifion a roddir gyda'r feddyginiaeth a yw angen cael ei chadw yn yr oergell.</p>
4	<p>Yn achos sylweddau/meddyginiaeth peryglus, dylid cynnal asesiad Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) o feddyginiaeth sy'n rhaid ei 'thrin'. Mae enghreifftiau'n cynnwys meddyginiaethau allanol megis steroidau, meddyginiaeth cytotocsig megis methotrexate a hydroxyurea. (Gweler Adran 4 COSHH).</p>	

5. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

Cwmpas

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys bob meddyginiaeth a all fod yn niweidiol i iechyd. Er bod bob meddyginiaeth fel arfer yn cael ei heithrio o reoliadau COSHH, pe byddai rhywun yn cael gafael ar feddyginiaeth benodol neu'n ei chymryd mewn camgymeriad gallai hyn fod yn beryglus i iechyd.

Mae rheoliadau yn gofyn i bob cyflogwr feddwl am sylweddau a allai fod yn beryglus i iechyd yn y gweithle. Mae'n rhaid asesu unrhyw beryglon dynodedig, a ac mae'n rhaid cymryd camau i leihau'r risg.

Y **perygl** a gyflwynir gan sylwedd yw ei botensial i achosi niwed, lle mae'r **risg** cysylltiedig yw'r tebygrwydd y bydd yn achosi niwed yn y ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio.

Er bod bob meddyginiaeth fel arfer yn cael ei heithrio o reoliadau COSHH, gall rhai meddyginiaethau os ydynt yn cael eu trin yn anghywir neu eu cymryd mewn camgymeriad fod yn beryglus i iechyd.

Dylai'r Fferyllydd dynnu sylw at unrhyw feddyginiaeth sydd angen cael ei thrin yn arbennig wrth gyflenwi. Bydd y Fferyllydd sy'n dosbarthu yn darparu'r cyngor priodol.

Cyfrifoldeb yr Unigolyn Cofrestredig / darparwr gofal yw sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal, a bod unrhyw ragofalon, deunyddiau, offer, diogelwch personol, a gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gydymffurfio â'r cyngor.

Dilynwch y ddolen am arweiniad ar gyffuriau Cytotocsig: www.hse.gov.uk/pubns/misc615.pdf

Mae'n rhaid i'r Fferyllydd Cymuned sy'n cyflenwi'r feddyginiaeth i gartref y dinesydd:

1. **Ddynodi** unrhyw sylweddau/meddyginiaeth beryglus a gyflenwir ar WP10 (presgripsiwn) i gartref y dinesydd cyn cyflenwi.
2. **Asesu'r** risg i iechyd o'r ffordd y mae'r sylwedd yn cael ei ddefnyddio yng nghartref y dinesydd, a phenderfynu pa ragofalon sydd eu hangen.
3. Cyngori ar fesurau priodol i **reoli'r** risg i iechyd ac i leihau risg gweithwyr rhag cael eu hamlygu i'r sylweddau hynny.
4. Rhoi gwybod i weithwyr, eu cyfarwyddo a'u hyfforddi am y risgiau a'r rhagofalon i'w cymryd.
5. Cyngori ar y mesurau rheoli i'w defnyddio, a bod unrhyw offer a ddarperir at y diben hwn yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn, ac y dilynir y gweithdrefnau.
6. Cyngori'r dinesydd a gweithwyr gofal am y weithdrefn i'w chynnal mewn achos o gymryd y feddyginiaeth mewn damwain neu ddamweiniau.

Mae meddyginiaeth a ddynodir fel perygl posibl i iechyd yn cynnwys:

Hylifau steroid ee Clobetasol, (Dermovate)
Hylifau cytotocsig e e Fluorouracil, (Efudix)
Meddyginiaethau cytotocsig ee Methotrexate
Ocsigen (**Gweler isod**)
Steroidau anabolig e.e. Finasteride, (Proscar).

Dylai'r dosbarthwr dynnu sylw at unrhyw feddyginiaeth sy'n rhan o'r weithdrefn hon wrth gyflenwi. Os yw meddyginiaeth newydd yn cael ei chyflenwi yna bydd y dosbarthwr yn darparu'r cyngor priodol ac yn sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu unrhyw ddeunyddiau, offer, gwybodaeth ysgrifenedig sydd eu hangen i gydymffurfio â'r cyngor. Dilynwch y ddolen am arweiniad ar gyffuriau cytotocsig:

www.hse.gov.uk/pubns/misc615.pdf

6. Ocsigen

Dim ond ar ôl asesiad gyda thîm arbenigol asesu ocsigen yn unig y bydd ocsigen yn cael ei ragnodi. Mae'r ocsigen yn cael ei gyflenwi gan gwmni ocsigen, a fydd yn danfon yr holl gynnyrch sydd ei angen ac yn ei osod.

Bydd archebion rheolaidd yn cymryd hyd at dri diwrnod, archebion brys o fewn pedair awr.

Bydd y cwmni ocsigen yn penderfynu ar y system ddarparu ocsigen mwyaf priodol i'r dinesydd ar ôl asesiad risg. Cyfrifoldeb y cyflenwr yw sicrhau y gall y modd o ddarparu ocsigen gael ei osod a'i ddefnyddio'n ddiogel gan y dinesydd.

Mae ocsigen yn berygl tân:

1. Peidiwch byth â gadael i unrhyw un ysmegu pan mae ocsigen yn cael ei ddefnyddio.
2. Cadwch ocsigen o leiaf 6 troedfedd oddi wrth wres neu fflamau yn cynnwys gwresogyddion a chwcerau nwy.
3. Peidiwch byth â defnyddio hylifau fflamadwy megis teneuwr paent, hylifau glanhau neu erosolau wrth ddefnyddio ocsigen.
4. Cadwch ddiffoddwr tân o fewn cyrraedd.
5. Gosodwch larymau tân ac alarwm mwg a gwirio eu bod yn gweithio.
6. Peidiwch byth â gadael ocsigen yn rhedeg pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.
7. Peidiwch byth â rhoi offer ocsigen wrth lenni, neu ei orchuddio â dillad.
8. Peidiwch byth â rhoi'r caniwla neu'r masg ar y gwely neu'r gadair pan mae'r ocsigen yn dal i redeg.
9. Gadewch ddrysau mewnol ar agor i helpu i awyru'r ystafell ac i atal nwy rhag cronni.

www.nhs.uk/conditions/home-oxygen

7. Rhoi meddyginiaeth - Gweithwyr Gofal cartref yn rhoi meddyginiaethau i unigolion

Cwmpas

Mae hwn yn berthnasol i Lefel 2 / lefel C a safonau cefnogaeth ychwanegol lefel 3 .
Dim ond aelodau o staff hyfforddedig a chymwys, dynodedig a all roi meddyginiaeth (gweler Cod ymarfer ategol)
Mae'n rhaid asesu gallu i roi meddyginiaeth yn y gweithle.
Dylai darparwyr gofal sicrhau bod gweithwyr gofal yn gallu blaenoriaethu eu hymweliadau ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth â meddyginiaethau sy'n amser penodol (Y RPS (2007))

Amcan

Gweithwyr Gofal Cartref yn rhoi meddyginiaethau yn ddiogel, gyda llwybr archwilio cyflawn

Mae rhagofalon arbennig yn berthnasol i hufenau, cyffuriau a meddyginiaethau unwaith yr wythnos a gwmpasir gan asesiad risg uchel a COSHH

Cyfrifoldeb

Rheolwr Cyfrifol ac aelodau o staff hyfforddedig a chymwys a neilltuwyd i roi meddyginiaethau ac sydd wedi ardystio yn gymwys.

Tasgau cyn rhoi meddyginiaeth

Ar gyfer bob dinesydd newydd, mae'n rhaid gwirio adran meddyginiaeth y Cynllun Gofal ar gyfer hanes meddyginiaeth

Mae'n rhaid rhoi meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwyr a gwybodaeth gwneuthurwyr

Dylid rhoi meddyginiaeth hylif ar lwy meddyginiaeth, pot neu chwistrell y geg

	Gweithred	Rhesymwaith
	Dylai gweithwyr gofal roi meddyginiaeth i unigolyn dim ond os: oes cytundeb wedi'i gofnodi'n glir gan y darparwr gofal cartref yn y cynllun gofal a mae cyfarwyddiadau clir gan y rhagnodwr ac maent wedi eu hyfforddi a'u hasesu yn gymwys i roi'r feddyginiaeth	
2	Ar unrhyw adeg benodol, mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal allu adnabod y feddyginiaeth a ragnodwyd ar gyfer bob dinesydd. Sicrhau bod taflen wybodaeth gyfredol i gleifion ar gyfer bob meddyginiaeth a ragnodwyd yn cael ei chadw yng nghartref y dinesydd. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau a gyflenwir mewn systemau dosau sy'n cael eu monitro.	I leihau niwed i'r dinesydd
3	Golchi dwylo gyda sebon bacterioleiddiol a dŵr neu lanhawr dwylo alcohol bacterioleiddiol a sicrhau bod eich gweithle yn lân	I leihau'r risg o draws-heintio
4	Mae'n rhaid cael cydsyniad cyn rhoi meddyginiaeth.	I sicrhau bod y claf yn deall y weithdrefn, ac yn rhoi ei gydsyniad dilys. I atal unrhyw

Gwirio stat	a gwirio cynllun gofal	gamgymeriadau sy'n ymwneud ag alergeddau cyffuriau
5	<p>Sicrhau bod gennych siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) neu gyfwerth gyda chi cyn i chi ddechrau rhoi'r feddyginiaeth. Gwirio bod y wybodaeth sydd ar y siart MAR yn gyflawn, yn gywir ac yn eglur.</p> <p>Cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth a ragnwyd, gwirio ei bod yn ddyledus, ac nad yw wedi cael ei rhoi eisoes. Mae angen ystyried ystyriaethau penodol ar gyfer meddyginiaethau penodol e.e.</p> <p>mae rhai meddyginiaethau angen cael eu rhoi ar gyfnodau penodol, er enghraifft cyn bwyd, gyda bwys neu ar ei ôl</p> <p>dim ond gydag amseriad dos penodol iawn y gall rhai salwch gael ei reoli</p> <p>Ni ddylid gosod allan dosiau o feddyginiaethau cyn eu gweinyddu (dosbarthu eilaidd) oherwydd risg o gamgymeriad'.</p>	<p>I amddiffyn y dinesydd rhag niwed Dylai rhagnodwyr a fferyllwyr cymuned (neu feddygon sy'n dosbarthu) ddarparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig clir ar y presgripsiwn a'r label dosbarthu ynglŷn â sut dylid cymryd bob meddyginiaeth neu ei rhoi.</p> <p>Mae rhai meddyginiaethau ar gyfer afiechyd Parkinson angen eu cymryd pum gwaith y dydd, mae ffitiau rhai unigolion yn cael eu rheoli dim ond os ydynt yn cymryd eu tabledi ar amseroedd penodol.</p>
	<p>Ystyriwch y canlynol</p> <p>gofynnwch i'r unigolyn a ydw eisiau ei feddyginiaeth cyn ei hestyn o'i pheccyn</p> <p>Os yw'r unigolyn yn gwrthod ei feddyginiaeth, ac y mae hon yn feddyginiaeth bwysig, efallai y bydd hi'n well aros ychydig a chynnig y feddyginiaeth iddo eto ychydig yn ddiweddarach</p> <p>Os yw'r unigolyn yn parhau i wrthod ei feddyginiaeth, peidiwch byth â gorfodi'r feddyginiaeth arnynt, ac mae hyn yn cynnwys cuddio meddyginiaeth mewn bwyd neu ddiodyd, ond efallai y bydd hi'n angenrheidiol cysylltu â'r Meddyg Teulu am fwy o gyngor</p>	
6	<p>Dewiswch y feddyginiaeth ofynnol drwy wirio'r canlynol yn erbyn y siart MAR:</p> <p>Enw a dos y meddyginiaethau cywir</p> <p>Gwiriwch y dyddiad dod i ben</p> <p>Dyddiad ac amser cywir ar gyfer ei rhoi</p> <p>Y llwybr cywir ar gyfer ei rhoi</p> <p>Os oes unrhyw ddarn o'r wybodaeth hon ar goll, yn aneglur neu'n annarllenadwy, yna ni ddylai'r gweithiwr gofal barhau â gweinyddu'r feddyginiaeth, a dylai ymgynghori â Meddyg Teulu neu fferylllydd y dinesydd.</p>	<p>Defnyddiwch y 6 'R' o roi meddyginiaeth:</p> <p>unigolyn cywir</p> <p>meddyginiaeth gywir</p> <p>llwybr cywir</p> <p>dos cywir</p> <p>amser cywir</p> <p>Hawl yr unigolyn/ dinesydd i wrthod Sicrhau bod y dinesydd cywir yn cael y cyffwr cywir, yn y dos a ragnodwyd, drwy'r llwybr cywir, ac i atal unrhyw gamgymeriadau rhag digwydd</p> <p>Mae triniaeth â meddyginiaeth sydd y tu allan i ddyddiad dod i ben yn beryglus. Mae meddyginiaethau yn gwaethygu wrth eu storio. Mae'r dyddiad dod i ben yn awgrymu nad yw meddyginiaeth benodol</p>

		yn effeithiol mwyach.
7	<p>Gwagwich y dos gofynnol i gynhwysydd meddyginiaeth</p> <p>Dylid rhoi meddyginiaeth i ddinesydd yn uniongyrchol o'r cynhwysydd dosbarthu, gan ddefnyddio'r dechneg dim cyffwrdd</p> <p>Ni ddylid byth â thynnu meddyginiaeth o'r cynhwysydd gwreiddiol y gwnaeth y fferylllydd neu'r meddyg ei dosbarthu ynddi nes amser ei rhoi. (Gweler gadael meddyginiaeth allan atodiad 3</p> <p>Dylid mesur meddyginiaeth hylif a'i rhoi gan ddefnyddio offer priodol. Os yw chwistrell y geg yn cael ei defnyddio, mae'n rhaid cael cydsyniad.</p>	<p>I leihau'r risg o draws-heintio.</p> <p>I leihau'r risg o niwed i'r gweithiwr gofal.</p> <p>Ni ddylai gweithwyr gofal ailbacio meddyginiaeth unigolyn mewn cymhorthydd cydymffurfio gan fod risg uchel o gangymeriad (gelwir hyn yn dosbarthu eilaidd) HLIN (2008).</p>
8	Cynorthwyo'r dinesydd i osgo cyfforddus sy'n briodol ar gyfer rhoi meddyginiaeth	
9	Rhoi'r meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd	Bodloni gofynion cyfreithiol a pholisi lleol
10	Ar gyfer meddyginiaeth drwy'r geg cynigwch wydriad o ddŵr os y'i caniateir, gan gynorthwyo'r dinesydd pan fo'n briodol	
11	Arhoswch gyda'r dinesydd nes bod y broses rhoi'r feddyginiaeth wedi'i chwblhau.	Sicrhau bod y feddyginiaeth wedi cael ei chymryd mewn pryd
12	Dylid cofnodi gweinyddu meddyginiaeth yn syth. Cofnodi'r dos a roddwyd ac arwyddo'r siart MAR a'r cynllun gofal	Bodloni gofynion cyfreithiol a pholisi lleol
13	<p>Os gwrthodir meddyginiaeth, dylai'r gweithiwr gofal gofnodi'r rheswm dros beidio â'i rhoi yng nghefn y MAR neu siart cyfwerth ac yn y cynllun gofal</p> <p>Os yw'r feddyginiaeth yn cael ei gwrthod am 2 ddiwrnod (48 awr) neu fwy- mae angen i'r gweithiwr gofal roi gwybod i Feddyg y dinesydd i drefnu adolygiad o feddyginiaeth.</p> <p>Mae'n rhaid cael gwared ar feddyginiaeth a wrthodwyd neu feddyginiaeth a ollyngwyd yn unol ag adran 10 (tudalen 21)- Cael gwared ar/ Dychwelyd Meddyginiaeth.</p>	
14	<p>Mae'n rhaid i feddyginiaeth sy'n sensitif i amser a 'phan maent yn ofynnol', gael cyfarwyddiadau digonol wedi'u hysgrifennu ar y siart MAR a'r labeli dosbarthu. Dylent gynnwys (os yw'n berthnasol):</p> <p>pa ddos y dylid ei gymryd (gan osgoi dosau amrywiol onid yw'r unigolyn neu ei aelodau o'i deulu neu ofalwr yn gallu arwain y gweithiwr gofal cartref</p> <p>pa amser y dylid cymryd y dos</p> <p>y cyfnod lleiaf rhwng dosau</p> <p>nifer uchaf y dosau i'w rhoi (er enghraifft, mewn 24 awr</p>	
15	Pan mae aelod o'r teulu neu ofalwr yn rhoi meddyginiaeth i unigolyn a fyddai fel arfer yn cael ei chynnig neu ei rhoi gan weithiwr gofal, dylai hyn gael ei gofnodi a'i gyfathrebu i'r gweithiwr gofal i	

Sylwer:

1. Dylid rhoi meddyginiaeth yn gaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwyr; ni ellir ei rhoi at unrhyw ddiben arall neu i unrhyw ddinesydd arall. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth nad ydynt yn rhai drwy'r geg megis gorchuddion, hufenau, ac ymborth geneuol. Mae'n rhaid asesu risg rhoi meddyginiaeth heb ei rhagnodi.
2. Dylai gweinyddu meddyginiaeth ymateb i anghenion dinesydd a chaniatáu ar gyfer darpariaethau arbennig megis pan fo angen meddyginiaeth cyn bwyd neu feddyginiaeth gyda threfn dos benodol.
3. Ni ddylid **byth** rhoi meddyginiaeth mewn pot neu ei phasio i weithiwr gofal arall i'w rhoi i'r dinesydd ar amser neu ddyddiad diweddarach.
4. Dylai bob MAR neu siart cyfwerth gael eu printio gan y Fferyllydd ac **nid** ei ysgrifennu â llaw fel mater o drefn. Gellir ysgrifennu unrhyw newidiadau mewn meddyginiaeth â llaw yng nghanol y mis i'r MAR neu siart cyfwerth yn llawn ac yn union fel y'i ysgrifennwyd ar y label dosbarthu. Os yw'n bosibl dylid gwirio hyn a dylid ei wrthlofnodi gan ail aelod o staff.
5. Mae'n rhaid i hyfforddiant ac asesiad gallu ar gyfer rhoi meddyginiaethau gan weithiwr gofal gynnwys y canlynol:
 1. Sut i gael cydsyniad.
 2. Sut i wirio hunaniaeth y dinesydd e.e ffotograff diweddar
 3. Sut i wirio'r enw, ffurf, cryfder a dos meddyginiaeth, a sut y gall gweithwyr gofal adnabod bob meddyginiaeth lle defnyddir System Dosau sy'n cael ei Monitro (MDS).
 4. Sut i groeswrio fod y siart MAR a'r feddyginiaeth yn cyd-fynd
 5. Sut i wirio a oes unrhyw newidiadau diweddar mewn therapi.
 6. Sut i wirio nad yw'r dos wedi cael ei roi yn barod
 7. Sut i wirio'r **llwybr** gweinyddu, neu a oes unrhyw ofynion gweinyddu arbennig, megis fformwleiddiadau meddyginiaethau penodol, er enghraifft, patsys, hufenau, mewnanaldyddion, diferion llygaid a hylifau
 8. Sut mae'r gweithiwr gofal sy'n rhoi meddyginiaeth yn cofnodi dos amrywiol. Er hynny, mae NICE (2016) yn awgrymu osgoi dosau amrywiol onid yw'r unigolyn neu aelodau o'i deulu neu ofalwr yn gallu arwain y gweithiwr gofal cartref)
 9. Sut i egluro cyfarwyddiadau dos aneglur megis 'fel y cyfarwyddir'.
 10. Sut i ddelio â chamgymeriad gweinyddu meddyginiaeth.

Canfod beth yw dewisiadau'r unigolyn ynglŷn â chymryd meddyginiaethau a'u cofnodi yn y cynllun gofal. Hefyd ystyriwch a chofnodwch

beth i'w wneud os yw'r unigolyn yn cael pryd neu'n cysgu

beth i'w wneud os yw'r unigolyn am fod i ffwrdd am gyfnod byr, er enghraifft ymweld â theulu

beth i'w wneud os oes gan yr unigolyn alluedd meddyliol sy'n dirywio neu'n newid.

Ystyriwch y canlynol hefyd:

cymdeithasol (er enghraifft peidio â chymryd meddyginiaethau yn gyhoeddus)

diwylliannol (er enghraifft cywilydd oherwydd ei fod yn cael cymorth i gymryd ei feddyginiaethau gan aelod o'r rhyw arall)

Ystyriaethau crefyddol (er enghraifft ystyried ymprydio)

8. Gorchmynion neu negeseuon llafar sy'n ymwneud â newidiadau dos neu feddyginiaeth

Cwmpas

Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y gall gweithwyr gofal dderbyn cyfarwyddiadau llafar am unrhyw newid, sy'n ymwneud â defnyddio meddyginiaethau gan y Meddyg Teulu, Fferyllydd neu rhagnodwr anfeddygol. Nid yw cyfarwyddiadau llafar gan unrhyw un arall yn dderbyniol. Mae'n rhaid cadarnhau'r newidiadau drwy neges destun, ffacs neu e-bost lle bo'n bosibl cyn gynted â phosibl

Mae hyn yn berthnasol i Lefel 2 / lefel C a safonau cefnogaeth ychwanegol lefel 3. Dim ond aelodau o staff hyfforddedig a chymwys, dynodedig sy'n cael derbyn gorchmyn neu negeseuon llafar sy'n ymwneud â newid meddyginiaeth neu ddos

1.	<p>Wrth dderbyn newidiadau llafar i feddyginiaethau dinesydd mae'n rhaid gwneud cofnod. Dylai'r broses hon gynnwys : -</p> <p>cofnodi manylion y newid gofynnol (yn cynnwys pwy ofynnodd am y newid, dyddiad ac amser y cais, a phwy gymerodd y cais)</p> <p>darllen y wybodaeth sydd wedi'i chofnodi yn ôl i'r unigolyn sy'n gofyn am y newid i gadarnhau ei bod yn gywir (yn cynnwys sillafu enw'r feddyginiaeth)</p> <p>sicrhau bod yr unigolyn sy'n gofyn am y newid yn ailadrodd y cais i unigolyn arall (er enghraifft, yr unigolyn a/neu aelod o'r teulu neu ofalwr).</p>	Er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu'n gywir ac i atal unrhyw gamgymeriadau rhag codi
2.	<p>Mae'n rhaid i bob neges gan y rhagnodwr, sy'n ymwneud â'r feddyginiaeth gael ei hysgrifennu ar gynllun gofal a dyddiadur dyddiol y dinesydd.</p> <p>Mae'n rhaid i newidiadau i feddyginiaeth gael eu hysgrifennu ar y MAR neu siart cyfwerth, ynghyd â'r dyddiad, amser ac enw'r Gweithiwr Proffesiynol lechyd sy'n awdurdodi. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen arwyddo ei enw arni, a chael newid y feddyginiaeth wedi'i wirio gan ail unigolyn os yw'n bosibl.</p>	I sicrhau a darparu parhad gofal a gwybodaeth
3.	Dylai'r Rheolwr Llinell ymgynghori â'r Meddyg Teulu ar unrhyw newidiadau a all effeithio ar ofal y defnyddiwr gwasanaeth/cleient, yn cynnwys adolygu'r cynllun gofal os yw'n briodol.	
4.	Os yw'r rhagnodwr yn bresennol yng nghartref y dinesydd, yna efallai y bydd y rhagnodwr yn newid y siart MAR neu'r siart cyfwerth ar yr adeg ymweld.	

9. Cadw cofnod meddyginiaeth mewn gofal cartref

Cwmpas

Lle rhoddir cymorth gyda meddyginiaeth ar lefel 1 neu lefel B (Cefnogaeth Gyffredinol), dylai'r holl weithredoedd sy'n ymwneud â meddyginiaeth p'un ag yw'n archebu presgripsiynau neu eu casglu, atgoffa / annog unigolyn i gymryd eu meddyginiaeth yn achlysurol gael eu cofnodi yn nodiadau/ cynllun gofal/ dyddiadur dyddiol y dinesydd.

Lle rhoddir cymorth gyda meddyginiaeth ar lefel 2 / lefel C neu safonau cefnogaeth ychwanegol Lefel 3, mae'n rhaid defnyddio cofnod gweinyddu meddyginiaeth (MAR) neu gyfwerth. Nid oes angen cofnodi hunan weinyddu meddyginiaeth gan ddinesydd.

Cadw cofnod lle rhoddir cymorth gyda meddyginiaeth ar lefel 1 neu lefel B (Cefnogaeth Gyffredinol) gan weithiwr gofal

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Mae'n rhaid cofnodi bob meddyginiaeth lle mae angen cefnogaeth gyffredinol lefel 1 neu lefel B (fel yr uchod) neu lle gwrthodir meddyginiaeth, yn syth yng nghynllun gofal neu ddyddiadur dyddiol y dinesydd.	Hyd yn oed os mai'r cynllun gofal oedd agor y cynhwysydd meddyginiaethau ar gyfer meddyginiaeth benodol i unigolion ei chymryd ei hun, mae'r cofnod yn dangos mai dyma'r gefnogaeth sydd wedi cael ei rhoi.
2	Bydd cofnodion yn cael eu cwblhau'n gywir mewn in annileadwy, darllenadwy a chyfredol	Mae hwn yn darparu llwybr archwilio cyflawn o bob meddyginiaeth, ac enwau bob staff gofal sy'n rhan
3	Mae'n rhaid i gywiriadau neu addasiadau fod yn glir. Caniateir rhoi llinell drwy'r cofnod anghywir a'i ailysgrifennu. Ni ddylai'r cofnod gwreiddiol fod yn aneglur e.e. drwy ddefnyddio hylif cywiro	

Sylwer:

1. Lle mae teulu neu ffrindiau yn rhoi rhai dosau o feddyginiaeth, dylid ei gofnodi yn y cynllun gofal pwy sy'n gyfrifol am rhoi pa ddosau.
Efallai y bydd Asiantaethau Gofal yn dymuno dangos i'r teulu neu i ffrindiau sut i gwblhau'r MAR neu siart cyfwerth i sicrhau nad yw dosau'n cael eu hepgor neu eu dyblygu. Dylai'r siart MAR gael ei nodi'n glir i ddangos bod y feddyginiaeth wedi cael ei rhoi gan rywun nad yw'n cael ei gyflogi gan yr asiantaeth.

Mae cofnodion i'w gwneud fel bo'n briodol i lefel y gefnogaeth yn cynnwys:

1. Meddyginiaeth a archebwyd.
2. Meddyginiaeth a dderbyniwyd.
3. Meddyginiaeth a roddwyd (ac unrhyw ddosau a wrthodwyd).
4. Meddyginiaeth a ddefnyddiwyd o gartref neu a drosglwyddwyd i leoliad gofal gwahanol.
5. Meddyginiaeth a chafwyd gwared arni.
6. Camgymeriadau Rhoi Meddyginiaeth.
7. Gorchmynion Llafar.

Manylion y cofnodion i'w cadw (sy'n briodol i lefel y gefnogaeth a gynigir)

Dyddiad

Enw, cryfder, ffurf a dos meddyginiaeth

Nifer y meddyginiaethau a archebwyd, a dderbyniwyd neu a roddwyd

Enw'r dinesydd, ei ddyddiad geni, cyfeiriad, statws alergedd, Meddyg Teulu

Llofnod yr aelod o staff

9a Cofnodi gweinyddu meddyginiaethau gan weithwyr gofal ar y siart MAR o fewn lefel 2/ lefel C neu Lefel 3 / cefnogaeth ychwanegol

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Dylid nodi unrhyw feddyginiaethau a roddwyd ac unrhyw ddosau a wrthodwyd yn syth ar y MAR neu siart cyfwerth. Pan fo aelod o'r teulu neu ofalwr yn rhoi meddyginiaeth i unigolyn a fyddai fel arfer yn cael ei chynnig neu ei rhoi gan weithiwr gofal, dylai hyn gael ei gofnodi a'i gyfathrebu i'r gweithwyr gofal i atal gorddos damweiniol	Dylid cadw cofnodion am o leiaf saith mlynedd mewn gwasanaethau Oedolion.
2	Bydd cofnodion yn cael eu cwblhau yn gywir mewn inc annileadwy, darllenadwy a chyfredol gan ddarparu llwybr archwilio cyflawn ac enwau'r holl staff gofal sy'n rhan. Mae'n rhaid i gywiriadau neu addasiadau a wneir i siartiau MAR fod yn glir. Caniateir rhoi llinell drwy'r cofnod anghywir a'i ailysgrifennu. Ni ddylai'r cofnod gwreiddiol fod yn aneglur e.e. drwy ddefnyddio hylif cywiro	Mae hwn yn darparu llwybr archwilio cyflawn o bob meddyginiaeth, ac enwau bob staff gofal sy'n rhan
3	Pan fo dewis o ddos e.e. 1-2 tabled, mae'n rhaid nodi nifer y tabledi a roddwyd.	
4	Os yw siart MAR wedi'i ysgrifennu â llaw yn anochel, dylai'r gweithiwr gofal sy'n cofnodi'r wybodaeth arwyddo'r siart MAR, a dylai'r gweithiwr gofal nesaf i roi meddyginiaeth wirio bod y cofnod wedi cael ei gwblhau'n gywir a'i chyd-lofnodi.	

Sylwer:

- Y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth neu'r siart cyfwerth (MAR) yw'r ddogfen weithio a ddylid ei defnyddio i gofnodi bob meddyginiaeth yn cynnwys meddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn, ymborth geneuol, hufenau ayyb.

10. Cael gwared ar / Dychwelyd Meddyginiaeth

Cwmpas

Mae'r feddyginiaeth yn eiddo i'r dinesydd, ac mae'n rhaid gofyn am ei gydsyniad cyn cael gwared arni.

	Gweithred	Rhesymwaith
1	<p>Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai gweithiwr gofal yn tynnu meddyginiaethau o gartref yr unigolyn i gael gwared arnynt. Bydd hyn yn briodol yn unig pe:</p> <p>byddai'n cael ei gynnwys ym mholisi meddyginiaethau darparwyr gofal cartref</p> <p>cafwyd caniatad ysgrifenedig gan yr unigolyn sy'n cael y gofal a rheolwr llinell y gweithiwr gofal (HLIN 2008).</p> <p>Cael cydsyniad dinesydd cyn tynnu / cael gwared ar unrhyw feddyginiaeth</p>	<p>Mae bob meddyginiaeth a ragnodir yn eiddo i'r dinesydd, felly byddai'n anghyfreithlon i gael gwared arnynt heb gydsyniad</p>
2	<p>Dylid dychwelyd unrhyw feddyginiaeth sydd dros ben neu nid oes ei heisiau i'r fferyllfa neu i'r meddyg sy'n dosbarthu</p>	
3	<p>Mae'n rhaid gwneud cofnod cyflawn o feddyginiaethau a anfonwyd i gael gwared arnynt/ neu a aed o gartref y dinesydd. (Gweler Adran 9 Cadw Cofnodion). Dylai hwn gynnwys y:</p> <p>dyddiad gwaredu, neu ddychwelyd i'r fferyllfa enw'r feddyginiaeth a'i chryfder nifer a waredwyd, neu dychwelwyd i'r fferyllfa</p> <p>enw'r unigolyn yr oedd y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi ar ei gyfer</p> <p>llofnod y gweithiwr gofal sy'n trefnu cael gwared ar y meddyginiaethau</p>	<p>Er mwyn darparu llwybr archwilio cywir ac fel gofyniad cyfreithiol</p>
4	<p>Mae gan bob meddyginiaeth ddyddiad dod i ben. Os oes gan feddyginiaeth dyddiad dod i ben byrrach pan mae'n cael ei defnyddio, bydd hyn yn cael eu hamlinellu yn y daflen wybodaeth i gleifion, neu ar botel ayyb</p>	<p>Mae rhai dyddiadau dod i ben yn cael eu byrhau pan mae cynnyrch yn cael ei ddefnyddio e.e. mae gan ddiferion llygaid 28 diwrnod unwaith y maent wedi'u hagar.</p>
5	<p>Pan fo newid mewn therapi, ac mae cynnyrch wedi cael ei derfynu, dylai'r feddyginiaeth gael ei dychwelyd i'r cyflenwr e.e. Fferyllydd Cymuned neu Feddygfa sy'n dosbarthu (gyda chydsyniad y dinesydd).</p>	<p>Y dull arferol ar gyfer cael gwared ar feddyginiaeth ddylai drwy ddychwelyd y feddyginiaeth i'r cyflenwr e.e. Fferyllydd Cymuned neu'r Feddygfa sy'n dosbarthu. Yna gall y cyflenwr sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei gwaredu yn y modd cywir</p>

Sylwer:

- Os yw dinesydd yn gwrthod caniatâu'r gweithiwr gofal i gael gwared ar y feddyginiaeth yna dylent gyfeirio'n ôl at y rheolwr/ darparwr gofal am gyngor/ cefnogaeth bellach.
- Efallai y bydd asesiad risg yn ofynnol os na ellir datrys y sefyllfa.

11. Camgymeriad Rhoi Meddyginiaeth

Cwmpas

Mae'n bwysig fod diwylliant agored yn bodoli er mwyn annog adrodd ar gamgymeriadau wrth roi meddyginiaethau yn syth.

Enghreifftiau o gamgymeriadau gweinyddu yw:

- archebu'r meddyginiaethau anghywir i unigolyn yn ddamweiniol
- derbyn y meddyginiaethau anghywir i'r unigolyn
- unigolyn yn cael adwaith anffafriol i feddyginiaeth rydych wedi ei rhoi
- rhoi'r feddyginiaeth anghywir yn ddamweiniol
- rhoi'r dos anghywir o'r feddyginiaeth gywir yn ddamweiniol
- rhoi meddyginiaeth i'r unigolyn anghywir nad oedd ar ei gyfer o yn ddamweiniol
- rhoi'r feddyginiaeth gywir ar yr amser anghywir yn ddamweiniol
- rhoi'r feddyginiaeth drwy'r llwybr anghywir yn ddamweiniol (er enghraifft llyncu pilsen a oedd i fod ar gyfer dyfais fewnanadlydd)
- rhywbeth y bu ond y dim iddo ddigwydd (rhywbeth y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu allai fod wedi digwydd, a allai fod wedi arwain at niwed i'r unigolyn)

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Os yw camgymeriad meddyginiaeth yn codi mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal sicrhau diogelwch y dinesydd	Mae'r RPS (2007) a HLIN (2008) yn cynghori y dylai darparwyr gofal cartref gael system adrodd ar ddigwyddiadau clir gyda digwyddiadau difrifol yn cael eu hadrodd arnynt i'r awdurdod rheoleiddio
2	Am gyngor neu wybodaeth Darllenwch y daflen wybodaeth y cynnyrch. Cysylltwch â Galw Iechyd Cymru (0845 4647) neu wasanaeth lleol y tu allan i oriau fel bo'n briodol. Gwasanaeth gwybodaeth am feddyginiaethau Ysbyty Gwynedd - 01248 384141 YGC - 01745 448788 ext. 6216	
3	Efallai y bydd hi'n briodol i gysylltu â'r Meddyg Teulu / Fferyllydd am gyngor, gwybodaeth neu gymorth di-oed	I hyrwyddo rheoli meddyginiaeth yn ddiogel
4	Mae'n rhaid i'r unigolion canlynol gael gwybod am y digwyddiad: Rheolwr llinell / uwch aelod o staff Meddygfa Yr unigolyn dan sylw a, lle bo'n berthnasol, ei deulu, gofalwyr ac eiriolwr y digwyddiad a chanlyniadau'r ymchwiliadau i ddigwyddiadau	
5	Dylid gwneud cofnod yng nghynllun gofal/nodiadau/dyddiadur dyddiol y dinesydd am y digwyddiad, ac unrhyw ddigwyddiadau a ddilynodd.	Mae darparwyr gofal cartref yn annog diwylliant agored ar gyfer adrodd ar broblemau meddyginiaethau sy'n galluogi gweithwyr gofal i adrodd ar faterion heb yr ofn lefel

		anghyfiawndwy o wrthgyhuddiad (diwylliant bai teg).
6	Mae'n rhaid i CSSIW a BIPBC gael gwybod am unrhyw ddigwyddiad (cwblhewch gofrestrriad 38 ar gyfer CSSIW a Ffurflen Adrodd ar Ddigwyddiadau BIPBC tudalennau 24 a 25) neu drwy'r linc:- www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/opensdoc/176994	System adrodd
	Os oes camgymeriad yn cael ei ddynodi o gwmpas rhagnodi neu ddsbarthu o fewn un ai gofal cychwynnol neu o'r ysbyty yna cwblhewch ffurflen digwyddiad sylweddol a'i chyflwyno i'r Uned Cefnogi Gofal Cychwynnol, Adran Llywodraethu Clinigol. Cysylltwch â :- Ardal Conwy, Sir Ddinbych, Mandy Casey (Mandy.Casey@wales.nhs.uk 03000 856121) Neu Sir y Fflint a Wrecsam:- Richard Waterson (Richard.Waterson@wales.nhs.uk 03000856670) For Gwynedd and Anglesey/ West area contact :- Neu Ardal Gwynedd a Môn: Mary Cottrill Mary Cottrill (Mary.Cottrill@wales.nhs.uk 03000 852300) http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/BCUHB%20PCSU%20Incident%20Reporting%20form%20April%202016.pdf	
7	Dylid cynnal adolygiad neu asesiad o'r weithdrefn weinyddu, er mwyn asesu pam y cododd y camgymeriad, a pha gamau y gellid eu cymryd i atal y camgymeriad rhag digwydd eto.	Gwersi a ddysgwyd mae gwella dysgu yn dilyn digwyddiadau diogelwch cleifion sy'n ymwneud â meddyginiaethau yn bwysig i arwain arfer ac i leihau niwed i gleifion

Nodiadau:

Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth:

gael proses a system adrodd ar ddigwyddiad clir. Ymchwilio i adroddiadau a phenderfynu a ydynt angen cynnig hyfforddiant i unigolyn neu adolygu gweithdrefnau cyfredol

Cofnodi unrhyw gamau a gymerwyd

Adrodd ar ddigwyddiadau difrifol i'r corff rheoleiddio

sicrhau bod staff yn gymwys i:

gofnodi, adolygu ac ymchwilio'n drylwyr

sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa a chofnodi hyn.

Mae'n rhaid atgoffa'r holl staff o bwysigrwydd adrodd ar bob camgymeriad meddyginiaeth yn syth, waeth pa mor ddibwys y maent yn ymddangos. Efallai y bydd peidio ag adrodd ar unrhyw gamgymeriad yn arwain at gamau disgyblu.

12. Rhoi Meddyginiaeth yn gudd

Cwmpas

Diffiniad o weinyddu cudd:

'Cudd' yw'r term a ddefnyddir pan fo meddyginiaethau yn cael eu rhoi heb i'r unigolyn sy'n eu cael wybod neu heb ei gydsyniad.

Mae cuddio meddyginiaeth mewn bwyd a diod yn dderbyniol dan amgylchiadau eithriadol y gellir ystyried rhoi meddyginiaeth yn gudd i atal dinesydd, nad yw'n gallu rhoi cydsyniad gwybodus, rhag colli triniaeth hanfodol.

Mae'n rhaid i dîm amlddisgyblaethol/ Meddyg Teulu (yn cynnwys perthnasau/cynrychiolwyr y dinesydd) wneud y penderfyniad i roi meddyginiaeth yn gudd, ac ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer dinasyddion sy'n gallu gwneud penderfyniadau am eu triniaeth feddygol.

Dylid ystyried y penderfyniad i roi meddyginiaeth yn gudd fel cynllun wrth gefn mewn argyfwng yn unig, nid rheolaidd fel arfer.

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Dylid gwneud asesiad risg llawn, ac mae'n rhaid i'r penderfyniad ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth yn gudd gael ei gofnodi'n llawn yng nghynllun gofal y dinesydd gyda dyddiad adolygu	I sicrhau bod y dinesydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gweinyddu'n gudd e.e. os nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol am y feddyginiaeth ei hun mae'r rhagnodwr wedi penderfynu bod angen y feddyginiaeth yn glinigol, bod opsiynau eraill wedi cael eu harchwilio (megis rhoi'r gorau i'r feddyginiaeth dros dro nes bod yr unigolyn wedi adfer ei allu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â chymryd y feddyginiaeth) os yw awdurdodiad a chyfarwyddyd ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth yn gudd yn cael ei gofnodi'r glir yng nghynllun gofal cartref yr unigolyn.
2	Mae'n rhaid bod gweithdrefn benodol meddyginiaeth a dinesydd ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth yn gudd ar gael i bawb sy'n rhan o ofal y dinesydd a'i deulu/cynrychiolwyr.	I amddiffyn y claf rhag niwed
3	Dylid ystyried fformwleiddiadau amgen	
4	Dylid ymgynghori â'r Fferylllydd Cymuned ar y dull a ddewisir ar gyfer cuddio'r feddyginiaeth.	I sicrhau ei bod hi'n addas i'r feddyginiaeth cael ei rhoi yn y ffordd hon
5	Mae'n rhaid i weinyddu meddyginiaeth ddilyn y weithdrefn fel y'i hamlinellir yn Adran 9	I sicrhau gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel

Sylwer:

Mae arweiniad y HLIN (2008) yn cynghori mai dim ond os yw darparwr gofal cartref yn caniatáu i'w staff rhoi'r meddyginiaethau yn gudd y dylid rhoi meddyginiaeth yn gudd. Mae'n rhaid i'r fferylllydd fod yn rhan o'r penderfyniadau hyn, gan y gall ychwanegu meddyginiaeth at fwyd neu ddiod newid ei phriodweddau ffarmacolegol ac felly effeithio ar ei berfformiad.

Dylid parhau ag ymdrechion rheolaidd i annog y claf i gymryd y feddyginiaeth yn wirfoddol. Ni elir malu'n fân/hydoddi bob meddyginiaeth. Mae rhestr gyfeirio ar gael ar <http://www.newtguidelines.com/>

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol y gwneuthurwr yn gorffen pan y mae cywirdeb ei gynnyrch wedi ei dorri h.y. pan mae'r dabled wedi'i thorri'n fân, ei thorri neu ei rhoi mewn modd gwahanol i'r hyn sydd yn y daflen wybodaeth i gleifion. Mae torri meddyginiaethau'n fân a chymysgu meddyginiaethau gyda bwyd neu ddiod i'w gwneud yn fwy dymunol neu'n haws i'w llyncu yn wahanol i roi meddyginiaeth yn gudd, ac mae'n rhaid i ddinesydd gael gwybod bob amser bob meddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn bwyd. Pan fo dinesydd wedi cydsynio i hyn, nid yw hyn yn cynnwys gweinyddu meddyginiaeth yn gudd; er hynny mae'n rhaid cadarnhau bod y dull o weinyddu yn briodol gyda'r fferylllydd cymuned a'i nodi yng nghynllun gofal y dinesydd.

13. Defnyddio Meddyginiaeth i ffwrdd o Gartref

Cwmpas

Mae hyn yn cynnwys bob sefyllfa lle y bydd dinasyddion angen meddyginiaeth i fynd â nhw i ffwrdd o gartref o bosibl

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Ni ddylai gweithwyr gofal lenwi dyfeisiadau cydymffurfio i ddinasyddion	I sicrhau storio meddyginiaethau'n ddiogel
2	Mae'n rhaid cyflenwi meddyginiaethau sydd i'w rhoi pan mae'r dinesydd i ffwrdd o gartref yn y cynhwysydd gwreiddiol. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau fod yn glir a'u dilyn yn gywir Mewn rhai sefyllfaoedd e.e. mynychu canolfan dydd yn rheolaidd, gellir trefnu cyflenwad o feddyginiaethau ar wahân ar gyfer cyfnod y gwyliau, a gall gweddill y feddyginiaeth aros yn y cartref yn dilyn trafodaeth â'r Meddyg Teulu a'r fferylllydd cymuned.	Sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei chynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.
3	Mae'n rhaid gwneud cofnodion ar y MAR neu siart cyfwerth bod y dinesydd i ffwrdd o gartref.	Sicrhau nad yw dosau'n cael eu dyblygu
4	Dylid cofnodi nifer y meddyginiaethau sy'n gadael cartref y dinesydd a'r nifer sy'n dychwelyd	

14 Trosglwyddo meddyginiaeth y dinesydd i leoliad gofal arall

(e.e. wedi'i ryddhau o'r ysbyty neu ei dderbyn i'r ysbyty)

Cwmpas

Ar brydiau, bydd dinasyddion un ai'n cael eu derbyn neu eu rhyddhau o'u cartref eu hunain i gartref nyrsio neu'r ysbyty.

Derbyn i gartref nyrsio.

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Dylid anfon yr holl feddyginiaeth gyfredol i'r cartref nyrsio gyda'r dinesydd gan ddefnyddio bag gwyrdd (sydd ar gael o'r fferyllfa leol).	Dylid anfon meddyginiaeth yn eu pecynnau gwreiddiol. Dylid anfon meddyginiaeth mewn pecynnau MDS
2	Dylid anfon rhestr gyfredol o feddyginiaethau hefyd.	Gallai hwn fod yn gopi o'r siart MAR cyfredol.

Derbyn i'r ysbyty

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Dylid anfon yr holl feddyginiaeth gyfredol (ac eithrio Cyffuriau Rheoledig) i'r ysbyty gyda'r dinesydd mewn bag gwyrdd (sydd ar gael o'r fferyllfa leol).	Dylid anfon meddyginiaeth yn eu pecynnau gwreiddiol. Dylid anfon meddyginiaeth mewn pecynnau MDS
2	Dylid anfon rhestr gyfredol o feddyginiaethau hefyd.	Gallai hwn fod yn gopi o'r siart MAR cyfredol.

Dinasyddion a rhyddheir o'r ysbyty.

Fel arfer, bydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chyflenwad o o leiaf 14 diwrnod o feddyginiaeth. Lle mae'r dinesydd yn gallu adrodd bod ganddo gyflenwad digonol o feddyginiaeth gartref, a lle nad oes unrhyw newid i drefn y feddyginiaeth efallai na fydd yr ysbyty yn cyflenwi meddyginiaeth.

Efallai y bydd gan ddinasyddion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty feddyginiaeth sy'n wahanol (o ran enw, dos, ffurf neu gryfder) i'r hyn cyn cael eu derbyn.

	Gweithred	Rhesymwaith
1	Mae'n rhaid cael gwared ar unrhyw feddyginiaeth nad oes ei hangen mwyach drwy ei dychwelyd i'r fferyllfa. Cael gwared ar unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei diddymu a'i storio'r briodol i'w dychwelyd i'r fferyllfa.	Atal gweinyddu anfwriadol o feddyginiaeth sy'n cael ei diddymu
2	Sicrhau yr eir â'r daflen rhyddhau binc neu lythyr adref, a'i bod yn cael ei ffeilio yng nghynllun gofal y dinesydd, gan y bydd hyn yn manylu ar y feddyginiaeth y mae'r dinesydd yn ei defnyddio.	I sicrhau cyfathrebu o'r ysbyty i'r gofalwr.
3	Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau o ran meddyginiaeth gael eu cofnodi'n syth ar siart MAR cyfredol y dinesydd.	Atal rhoi meddyginiaeth yn anghywir. Dim ond gofalwyr sy'n gymwys mewn trawsgrifio a all wneud newidiadau i'r siart MAR.
4	Anfon y daflen ryddhau/llythyr at feddygfa'r dinesydd neu fynd ag o yno (o fewn 48 awr). Rhoi gwybod i'r fferylllydd sy'n cyflenwi am bob newid o ran meddyginiaeth y dinesydd.	I sicrhau cyfathrebu digonol o'r ysbyty
5	Archebu unrhyw feddyginiaeth ychwanegol sydd ei hangen.	I sicrhau parhad triniaeth a ddechreuwyd yn yr ysbyty

15. Safonol ar gyfer pan fo meddyginiaeth ‘Pan fo’i hangen’ yn cael eu rhoi (meddyginiaethau PRN)

Prif Bwyntiau

Mae meddyginiaethau a ragnodir i’w cymryd ‘pan fo’u hangen’ (PRN) yn cael eu rhagnodi fel arfer i drin cyflyrau neu symptomau meddygol tymor byr neu ysbeidiol h.y. nid yw ar gyfer ei chymryd yn rheolaidd

Dylai’r Cynllun Gofal gael cyfarwyddiadau clir yn disgrifio a ddylai’r feddyginiaeth gael ei chynnig i’r dinesydd yn rheolaidd, neu a ddylid ei chymryd mewn ymateb i gais gan y dinesydd yn unig.

	Gweithred	Rhesymwaith
1	<p>Er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei rhoi fel y bwriadwyd, mae'n rhaid cofnodi cynllun penodol ar gyfer ei rhoi yn y cynllun gofal, a'i gadw yn ddelfrydol gyda'r MAR neu siart cyfwerth.</p> <p>Mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal sicrhau bod cyfarwyddiadau penodol ar y siart MAR neu siart cyfwerth, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> At beth mae'r feddyginiaeth yn cael ei defnyddio e.e. ar gyfer lleddfu poen pen-glin y cyfnod lleiaf rhwng dosau Nifer/dos y feddyginiaeth i'w rhoi Nifer uchaf y dosau mewn 24 awr 	<p>Ni chaniateir i weithwyr gofal gynorthwyo gyda ‘meddyginiaethau pan fo’u hangen’ onid oes cyfarwyddiau penodol sy'n rhoi manylion ar gyfer eu defnyddio</p> <p>Dylai'r dinesydd gael cynnig y feddyginiaeth pan maent yn profi'r symptom un ai drwy ddweud wrth y gweithiwr gofal, neu wrth i'r gweithiwr gofal adnabod angen y dinesydd fel yr amlinellir yn y cynllun gofal</p>
2	<p>Cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal edrych ar siart MAR y dinesydd a gwirio a dilyn y weithdrefn a ddisgrifir yn Adran 5 Rhoi meddyginiaeth- Gweithwyr Gofal Cartref sy'n rhoi meddyginiaethau i unigolion.</p> <p>Dylai'r gweithiwr gofal:</p> <ul style="list-style-type: none"> Wirio pryd y rhoddwyd y dos diwethaf Gwirio bod y lleiafswm amser rhwng dosau wedi mynd heibio. Gwirio nad yw'r dinesydd wedi cymryd dos ei hun, neu ei fod wedi cael dos gan ofalwr anffurfiol. Cofnodi'r union amser, dyddiad a dos y feddyginiaeth a roddwyd. 	<p>I atal unrhyw gamgymeriadau rhag digwydd</p> <p>I gynnal cadw cofnodion cyfredol (gweler adran Cadw Cofnod o Feddyginiaethau mewn gofal cartref)</p>
3	<p>Os yw ‘meddyginiaethau pan fo’u hangen’ yn cael eu rhoi yn anaml, gwiriwch fod y feddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi at y diben y mae ei hangen yn awr, nad ydyw wedi cael ei newid am 'PRN' gwahanol neu feddyginiaeth reolaidd, ac nad yw'r dinesydd wedi dechrau unrhyw feddyginiaeth newydd a allai ryngweithio.</p> <p>Dylid ystyried gallu'r dinesydd i wrthod y feddyginiaeth</p>	<p>Nid oes angen gwneud cofnod yn ystod bob ymweliad i ddangos bod y dinesydd wedi cael cynnig y feddyginiaeth ond mae'n arfer da gwneud hyn, ac i ddangos pryd y gwrthodwyd y feddyginiaeth PRN</p>
4	<p>Dylai gweithwyr gofal rhoi gwybod i'w rheolwyr, a ddylai gysylltu â meddyg y dinesydd os:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yw'r dinesydd eisiau cymryd y feddyginiaeth PRN yn amlach na'i rhagnodwyd 	

	Yw defnydd o'r feddyginiaeth PRN yn cynyddu Os oes rheswm i gredu nad yw'r PRN yn effeithiol mwyach Os oes rheswm i gredu nad oes angen y PRN mwyach	
5	Mae'n arfer da cofnodi balans y PRN ar ôl i bob dos gael ei roi	Dylid trosglwyddo PRN sydd yn dal mewn defnydd ac mewn dyddiad o un mis i'r nesaf, a pheidio â chael gwared arnynt i osgoi gwastraff
6	Cofnodi gweinyddu'r feddyginiaeth ar y siart MAR a'i gofnodi yng nghynllun gofal y dinesydd	I gadw cofnodion cywir (gweler adran Cadw Cofnod o Feddyginiaeth) mewn Gofal Cartref) a darparu pwynt cyfeirio mewn achos o unrhyw ymholiadau ac atal unrhyw ddyblygu triniaeth

16. Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer gadael meddyginiaeth allan ar gyfer y dinesydd i'w gymryd ei hun yn hwyrach ymlaen.

Cyngor: - Mewn amgylchiadau penodol, efallai y bydd dinasyddion angen dosau o feddyginiaeth i'w gadael allan er mwyn i alluogi iddynt fod yn annibynnol. Gall enghraifft fod yn dabled cysgu y mae'r dinesydd yn ei chymryd cyn gwely pan nad oes ymweliad gyda'r nos.

Sylwer: -

Ni chaniateir gweithwyr gofal i baratoi dosau ar gyfer eu rhoi gan drydydd parti, megis gweithiwr gofal arall neu aelod o'r teulu.

Ni ddylai gweithwyr gofal roi meddyginiaeth sydd wedi cael ei thynnu o'r pecyn gan unigolyn arall.

Mae'n rhaid i'r math hwn o gymorth gyda meddyginiaeth gael ei fonitro'n agos

	Gweithred Os yw'r dinesydd angen y math hwn o gymorth:	Rhesymwaith
1	Eglurwch y weithdrefn a'i thrafod â'r dinesydd.	I sicrhau bod y dinesydd yn deall y weithdrefn
2	Ni ddylid cadw meddyginiaeth allan mewn cynhwysyddion ar agor heb eu labelu fel mater o drefn, mae'n rhaid iddi fod yn amodol ar asesiad risg meddyginiaethau, a chael ei hamlinellu yng nghynllun gofal y dinesydd. Dylai'r asesiad risg gynnwys risg i'r dinesydd, y rhai sy'n bwy ag o, a'i ymwelwyr. Dylid asesu gallu'r dinesydd i gofio cymryd y feddyginiaeth, a nodi'r camau a gymerwyd i gynorthwyo capasiti	I leihau'r risg i ddinesydd a'r rhai sy'n bwy ag o neu sy'n ymweld ag o. Dylai gweithwyr gofal eu rhoi yn uniongyrchol o'r cynhwysydd y maent yn cael eu cyflenwi ynddo. Peidiwch â gadael dosau allan i'r unigolyn i'w cymryd yn hwyrach ymlaen onid yw hyn wedi cael ei gytuno arno gyda'r unigolyn ar ôl asesiad risg a'i fod wedi ei gofnodi yn ei gynllun gofal cartref
3	Dylai'r cynllun gofal ddisgrifio'n union sut ddylai'r feddyginiaeth gael ei pharatoi a'i storio. Dylai hyn fod mewn cynhwysydd addas ac o afael plant.	I sicrhau cywirdeb meddyginiaeth
4	Dylai'r gweithiwr gofal sy'n paratoi'r dos, gofnodi'r glir ar y siart MAR bod y dos wedi cael ei baratoi.	Ni ellir cofnodi'r gweinyddu'r feddyginiaeth wirioneddol gan na fydd y gweithiwr gofal yn dyst iddo.
5	Dylid cofnodi unrhyw feddyginiaeth nas ei chymerir gan y dinesydd ar y siart MAR ac mae'n rhaid cael gwared arni'n ddiogel. Mae'n rhaid i reolwr llinell y gofalwr gael gwybod am hyn.	I atal rhoi/cymeryd meddyginiaeth yn anfwriadol yn y dyfodol
7	Ni ddylid gadael meddyginiaethau allan am hwy na 24 awr	I sicrhau cywirdeb meddyginiaeth

Aelodau o'r gweithgor gwreiddiol:

Name	Teitl
Susan Murphy	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau (gorllewin)
Eiriann Turner	Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Val Bamber	Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Hayley Jones	Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Sarah Felicello	Fferyllydd P&MM
Sue Randles	Technegydd Fferylliaeth

Aelodau o'r grŵp adolygu Hydref 2016

Enw	Teitl
Alan Hughes	Fferyllydd Arweiniol Llywodraethu Meddyginiaethau - Cadeirydd
William Duffield	Fferyllydd Arweiniol, Diogelwch Cleifion
Chris Thomas	Nyrs Arbenigol, Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau
Katherine White	Nyrs Arbenigol, Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau
Jonathan Sutton	Gastroenterolegydd Ymgynghorol
Alison Cox	Fferyllydd Cefnogi Gwybodaeth Rhagnodi
Maria Bell	Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru (CGGGLGC)
Kristy L Jones	Metron dros dro-tîm dibyniaeth uchel cymunedol
Shirley Whiteway	Gwasanaethau gofal cartref Cambria

Mae ymgynghoriad/ymgysylltu wedi ei gynnal gyda:

Enw	Teitl / Uwch Adran	Cymeradw ywyd do/nad do	Sylwadau
Is-grwp polisi meddyginiaethau BIPBC gweithdrefn a cyfarwyddyd grŵp cleifion	P&MM	Do	Dim
Grŵp cyffuriau a therapiwtig BIPBC	P&MM	Do	Dim